


LLYFRAU'R FORD GRON, RHIF 1



¶ Cyfres o Drysorau'r  
Iaith Gymraeg



PENILLION  
TELYN



6d.

WRECSAM  
HUGHES A'I FAB

# GWEITHIAU BEIRDD CYMRU.

---

**CANIADAU SYR JOHN MORRIS JONES.** Lliain, ymyl uchaf aur, 5s.

**CANIADAU ELFED.** Lliain, 2s.

**TELYNEGION MAES A MOR: EIFION WYN.** Lliain, 2s. 3d.

**YNYS YR HUD A CHANIADAU ERAILL: W. J. GRUFFYDD.** Byrddau, 3s. 9d.

**CERDDI CRWYS.** Lliain, 3s. 6d. Papur, 2s. 6d.

**CERDDI NEWYDD CRWYS:** Lliain, 3s. 6d. Papur, 2s. 6d.

**CEIRIOG:** Detholiad o'i waith gan yr Athro T. GWYNN JONES. Lliain, 3s. 6d.

**PLANT Y BABELL: WIL IFAN.** Byrddau, 3s. 6d.

**GWEITHIAU TALIESIN O EIFION** (bardd y gadair ddu, Wrecsam, 1876), wedi eu golygu gan WIL IFAN. Lliain, 5s.

**RHWNG DOE A HEDDIW:** Casgliad W. S. GWYNN WILLIAMS o delynegion gan Alafon, Anthropos, Awen Mona, Berw, Bryfdir, Caerwyn, Crwys, Cynan, Dyfed, Dyfnallt, Eifion Wyn, Elfed, Elphin, W. J. Gruffydd, Gwili, Hedd Wyn, John T. Job, J. Morris-Jones, R. H. Jones, Meuryn, R. Williams Parry, Pedr Hir, Pedrog, R. Silyn Roberts, Sarnicol, Wil Ifan, G. J. Williams, Gwilym Williams, J. J. Williams, Wyn Williams, gyda rhagymadrodd gan yr Athro T. Gwynn Jones. Byrddau, 3s. 6d.

**GWAED IFANC:** J. T. JONES ac E. PROSSER RHYS. Papur, 1s.

**CRIAFOL:** GWILLY DAVIES A DAVID JONES. Gyda rhagymadrodd ar y delyneg a'r soned gan Dr. T. H. Parry-Williams. Lliain, 3s. 6d.

**HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR, WRECSAM**

Gifford Gifford  
1965 £1

# PENILLION TELYN

LLYFRAU'R FORD GRON,  
RHIF 1

WRECSAM  
HUGHES A'I FAB

LLYFRAU'R FORD GRON

GOLYGYDD: J. T. JONES

GWNAED AC ARGRAFFWYD YN WRECSAM

## RHAGAIR.

**B**LODAU'R meysydd ydyw'r penillion hyn. Yno, yn y meysydd, y tyfasant. Natur ei hun ydynt.

Ni wŷr neb pwy a'u canodd. O galonnau a thros wefusau llafurwyr cefn gwlad y daethant. Ochenaid, neu ddeigrin, neu chwerthiniad, wedi ei ddal a'i rwymo, ydyw pob un ohonynt.

Nid oedd na defod llys na rheol eisteddfod i gaethiwo awen y beirdd anadnabyddus hyn. Rhoes eu symlrwydd, eu didwylledd a'u hangerdd lyfnder ymadrodd a cheinder arddull iddynt na cheir ei gyffelyb ond yn anaml gan y beirdd swyddogol a'u celfyddyd ymwybodol.

Y maent yn ffrwyth cenedlaethau; ie, ganrif-oedd. Llefarrant wrthym am y goleuni a'r melyster oedd yn bod ar dir Cymru, ymhlith y werin, yn ystod amser oedd, yn yr ystyr swyddogol, yn ddigon du a di-enaid. Llefarrant ledneisrwydd a chwaeth, dewrder a llawenydd a barn.

Erbyn dydd y Ficer Prichard o Lanymddyfri, a anwyd yn 1579, yr oedd y pennill telyn wedi tyfu'n llawn, fel y dengys *Cannwyll y Cymry* y Ficer. Troi parodrwydd y bobl i ganu yn foddion goleuo eu hanwybodaeth o'r ysgrythurau—dyna a wnaeth ef; ac â fflam y pennill telyn y cyneuodd ei Gannwyll.

Etifedd y beirdd gwlad hyn oedd Williams Pantycelyn; hebddynt hwy ni chawsem ei gân ef na chân Ann Griffiths; a heb Williams ac Ann Griffiths ni chawsem gân Alun a Cheiriog a thelynegwyr ein dyddiau ni.

# CYNNWYS

*Td.*

CARIAD . . . . .	5
DOETHINEB PROFIAD . . . . .	13
RHYDDID A HOEN . . . . .	17
GOGAN . . . . .	21
HIRAETH . . . . .	25
GOFID . . . . .	27
ANGAU . . . . .	30

## *Cariad.*

**Y**FAIS atat, glas dy lygad,  
Trwy bur serch a ffyddlon gariad;  
Yfa dithau, ddwyael feinion,  
At y mwya' a gân dy galon.

Do, bûm ganwaith yn dy garu,  
Feinir wen, a thithau'n gwadu;  
Ond yn awr, mae rhaid cyfadde,  
Beth a wnaet pe gwadwn inne?

Afon Conwy'n llo'n felyn,  
Mynd â choed y maes i'w chanlyn,  
Ar ei gwaelod mi rof drithro  
Cyn y rhof fy nghariad heibio.

Mi ddymunais fil o weithiau  
Fod fy mron o wydyr golau,  
Fel y gallai'r fun gael gweled  
Fod y galon mewn caethiwed.

Acw draw mae fy nau lygad,  
Acw draw mae f' annwyl gariad,  
Acw draw dymunwn inna  
Gysgu'r nos a chodi'r bora.

O f'anwlyd, dywed imi,  
P'le mae gwreiddyn ffynnon ffansi—  
Ai yn dy gorff ai yn dy galon,  
Ai yn dy lân wynepryd tirion?

CARIAD

Blodau'r flwyddyn yw f'anwlyd,  
Ebrill, Mai, Mehefin hefyd,  
Llewyrch haul yn t'wynnu ar gysgod,  
A gwenithen y genethod.

Dacw f'annwyl siriol seren,  
Hon yw blodau plwyf Llangeinwen;  
Dan ei throed ni phlyg y blewyn  
Mwy na'r graig dan droed aderyn.

Duw dy bropred, Duw dy laned,  
O na chai fy mam dy weled;  
O na ddout ti hefo mi adre,  
Ti gaut groeso os cawn inne.

Gwae fi erioed fy ngeni,  
A 'nhad a'm mam fy magu,  
Na fuaswn farw ar laeth y fron  
Cyn dod i oedran caru.

Caled ydyw peidio caru,  
Caled hefyd gwneuthur hynny,  
Ond caletaf o'r caledion  
Galw serch yn ôl i'r galon.

Os collais i fy nghariad gorau,  
Colli wnelo'r coed eu blodau,  
Colli'u cân a wnelo'r adar,  
Duw a gatwo ffrwyth y ddaear.



## CARIAD

Hardd yw gwên yr haul yn codi  
Gyda'i lonaid o oleuni,  
Hardd y nos yw gwenau'r lleuad,  
Harddach ydyw grudd fy nghariad.

Tlws yw'r lleuad yn y tonnau,  
Tlws yw'r sêr ar noson olau,  
Ond nid yw y sêr na'r lleuad  
Hanner tlysed ag yw 'nghariad.

'Rwyf yn hoffi sŵn y delyn  
Gyda'i their-res dannau melyn,  
Ac mae'r mêdd yn ddigon melyn  
Nes caf brofi mêl ei gwefus.

Sôn am godi pont o sglodion  
O Sir Fôn i Sir Gaernarfon—  
Gwallt fy mhen ro'n ganllaw iddi,  
Er mwyn y ferch sy'n tramwy trosti.

Dy liw, dy lun, dy law, dy lygad,  
Dy wedd deg a'th ysgafn droediad,  
Dy lais mwyn a'th barabl tawel  
A'm peryglodd am fy hoedel.

Mae 'nghariad i eleni  
Yn byw yn South Corneli,  
Yn fain ei gwest, yn nêt ei phleth,  
Yn wynnach peth na'r lili.

CARIAD

Dacw 'nghariad ar y bryn,  
Rhosyn coch a rhosyn gwyn,  
Rhosyn coch sy'n bwrw ei flodau,  
Rhosyn gwyn yw 'nghariad innau.

Saif y lloer a'i chlustiau i fyny  
Yn ddistaw, pan fydd Gwen yn canu;  
Wel, pa ryfedd fod ei chariad  
Yn gwirioni yn sŵn ei chaniad?

Gwyn fy myd na bawn yn walch  
Neu ryw aderyn bychan balch,  
Mi wnawn fy nyth yng nghwr y gwely  
Lle mae Nansi Llwyd yn cysgu.

Tri pheth sy'n anodd imi—  
Cyfri'r sêr pan fo hi'n rhewi,  
Rhoi fy llaw ar gwr y lleuad,  
Gwybod meddwl f'annwyl gariad.

Ni bu ferch erioed gyn laned,  
Ni bu ferch erioed gyn wynned,  
Ni bu neb o ferched dynion  
Nes na hon i dorri 'nghalon.

Os collais i fy nghariad lân,  
Mae brân i frân yn rhywle,  
Wrth ei bodd y bo hi byw,  
Ag 'wyllys Duw i minne.

## CARIAD

Tros y môr mae'r adar duon,  
Tros y môr mae'r dynion mwynion,  
Tros y môr mae pob rhinweddau,  
Tros y môr mae 'nghariad innau.

Tros y môr y mae fy nghalon,  
Tros y môr y mae f'ochneidion,  
Tros y môr y mae f'anwylyd,  
Sy yn fy meddwl i bob munud.

Anodd plethu dŵr yr afon  
Mewn llwyn teg o fedw gleision,  
Dau anhawddach peth na hynny  
Yw rhwystro dau fo'n ffyddlon garu.

Paham mae'n rhaid i chwi mo'r digio  
Am fod arall yn fy leicio?  
Er bod gwynt yn ysgwyd brigyn,  
Rhaid cael caib i godi'r gwreiddyn.

Fe geir cyfoeth ond cynilo,  
Fe geir tir ond talu amdano,  
Fe geir glendid ond ymofyn,  
Ni cheir mwynder ond gan Rywun.

Tra bo Môn a môr o'i deutu,  
Tra bo dŵr yn afon Conwy,  
Tra bo marl dan Graig y Dibyn,  
Cadwaf galon bur i Rywun.

CARIAD

Lle bo'r cariad wiw mo'r ceisio  
Cloi mo'r drws, a'i ddyfal folltio;  
Lle bo'r 'wyllys fe dyr allan  
Drwy'r clo dur a'r dderwen lydan.

Mynych iawn y bydd fy nghariad  
Bryd a llais wrth drefn y lleuad,  
A phan fyddo'r lloer yn llawngron,  
Dyna'r pryd y bydd hi'n fodlon.

Union natur fy mun odiaeth  
Yw nacáu a 'mroi ar unwaith—  
Gweiddi Heddwch, diodde'i theimlo,  
Dwedyd Paid, a gadel iddo.

Peth ffein yw llaeth a syfi,  
Peth ffein yw siwgwr candi,  
Peth ffein yw myned wedi nos  
I stafell dlos i garu.

Sôn y maent ar hyd y dyffryn  
Mai fi yw Neb a chwi yw Rhywun,  
Os caiff Neb chwi, Gwen lliw'r blodau,  
Bydd gwir i Rywun fy nghael innau.

Câr y cybydd gwd ac arian,  
A phwy sydd nas câr ei hunan?  
Myfi sy'n caru merch yn anghall  
Ac yn bychanu popeth arall.

## CARIAD

Do, mi welais heddiw'r bore  
Ferch a gawn pan fynwn inne,  
Ac a welais, do, brynhawn,  
Ferch a garwn ac nis cawn.

Mi gariaf rhwng fy mreichie  
Gaerdydd ac Abertawe,  
A Chasnewydd ar fy mhen,  
O serch at Gwen lliw'r blode.

Rhyd y bompren grwca,  
Pwy welais i 'n mynd drwa,  
Dy gariad di, lliw blodau'r drain,  
Fel cambric main o'r India.

Gyda'r nos daw'r tŷ yn dywyll,  
Gyda'r nos daw golau'r gannwyll,  
Gyda'r nos daw diwedd chware,  
Gyda'r nos daw tada adre.

Merch o lun 'r wyf yn ei charu,  
Merch o lun 'r wyf yn ei hoffi,  
Nid o Lŷn gerllaw Pwllheli,  
Ond o'r lliw a'r llun sydd arni.

\* \* \*

Mae 'nghariad i'n Fenws, mae 'nghariad i'n  
fain,  
Mae 'nghariad i'n dllysach na blodau y drain,  
Fy nghariad yw'r lana a'r wynna'n y sir,  
Nid wyf yn ei chanmol ond dwedyd y gwir.

## CARIAD

Mynnwn gasglu'r niwl a'i hel,  
A'i rwymo mewn sachlenni,  
Ar hyd y gweunydd fore a hwyr  
Cyn bario'n llwyr dy gwmni,  
Mynnaf hynny, doed a ddêl,  
Cyn cana'i ffarwel iti.

Mae'n dda 'mod i'n galed fy nghalon,  
Liw blodau drain gwynion yr allt;  
Mae'n dda 'mod i'n ysgawn fy meddwl,  
Liw'r banadl melyn ei gwallt;  
Mae'n dda 'mod i'n ieuanc, 'rwy'n gwybod,  
Heb arfer fawr drafod y byd;  
Pam peidiaist ti, ferch, â 'mhriodi,  
A minnau'n dy ganlyn di cyd?

## *Doethineb Profiad.*

**BŪM** edifar, fil o weithiau,  
Am lefaru gormod geiriau;  
Ond ni bu gymaint o helyntion  
O lefaru llai na digon.

Clywais siarad, clywais ddwndro,  
Clywais bart o'r byd yn beio,  
'Chlywais i eto neb yn datgan  
Fawr o'i hynod feiau 'i hunan.

Ac yr awron 'rydwy'n dechrau  
Dallt y byd a chyfri nghardiau,  
Ac adnabod fy nghymdogion:  
Duw, pa hyd y bŪm i'n wirion.

Lle bo cariad fe ganmolir  
Mwy, ond odid, nag a ddylir,  
A chenfigen a wêl feiau  
Lle ni bydd dim achos, weithiau.

Tebyg ydyw morwyn serchog  
I fachgen drwg yn nhŷ cymydog.  
“A fynni fwyd?” “Na fynnaf mono”—  
Ac er hynny yn marw amdano.

Tebyg yw y delyn dyner  
I ferch wen a'i chnawd melysber,  
Wrth ei theimlo mewn cyfrinach  
Fe ddaw honno'n fwynach, fwynach.

Merch i bwy wyt ti, lliw'r manod?  
 Merch fy nhad a'm mam o briod.  
 O ba wlad y deuthost allan?  
 O wlad fy nhad a'm mam fy hunan.

Pan fo seren yn rhagori,  
 Fe fydd pawb a'i olwg arni;  
 Pan ddaw unwaith gwmwl drosti,  
 Ni bydd mwy o sôn amdani.

Perchen tafod a arfero  
 Ddweud am bawb y peth a fynnno,  
 Bydd rhaid iddo wrando'n fynych  
 Lawer peth na bo'n ei chwennych.

Hir yw'r ffordd a maith yw'r mynydd  
 O Gwm Mawddwy i Drawsfynydd;  
 Ond lle bo 'wyllys mab i fyned,  
 Fe wêl y rhiw yn oriwaered.

Hawdd yw d'wedyd, "Dacw'r Wyddfa,"  
 Nid eir drosti ond yn ara';  
 Hawdd i'r iach, a fo'n ddiddolur,  
 Beri i'r claf gymeryd cysur.

Bûm yn byw yn gynnil, gynnil,  
 Aeth un ddafad imi'n ddwyfil;  
 Bûm yn byw yn afrad, afrad,  
 Aeth y ddwyfil yn un ddafad.



Gochel fostio'n fynych, fynych,  
 Y gweithredoedd gorau feddych,  
 Rhag cael dannod it yn rhydost  
 Y gweithredoedd gwaetha wnaethost.

'D af i garu fyth ond hynny  
 At y merched trwm eu cysgu,  
 Af at lodes groenwen gryno  
 Lawr y dyffryn, hawdd ei deffro.

Rhaid i bawb newidio byd,  
 Fe wŷr pob ehud anghall,  
 Pa waeth marw o gariad pur,  
 Na marw o ddolur arall?

Mi fŷm gynt yn caru glanddyn,  
 Ac yn gwrthod pob dyn gwrthun,  
 Ond gweld yr ydwyf ar bob adeg  
 Mai sadia'r mur po garwa'r garreg.

Amser sydd i dewi ar bopeth,  
 Amser sydd i ddwedyd rhywbeth,  
 Ond ni ellir cael un amser  
 I ddweud popeth yn ddibryder.

Os gweli ddyn yn lled orffwyllo  
 Na chais byth ag ef ymherio,  
 Fe daw â sôn ond dweud ei gyfran—  
 'Ymdaerodd neb erioed ei hunan.

DOETHINEB PROFIAD

Geiriau mwyn gan fab a gefais,  
Geiriau mwyn gan fab a glywais,  
Geiriau mwyn sy dda dros amser,  
Ond y fath a siomodd lawer.

Mwyn a mwyn a mwyn yw merch,  
A mwyn iawn lle rhoddo 'i serch,  
Lle rho merch ei serch yn gynta,  
Dyna gariad byth nid oera.

Da am dda sy dra rhesymol,  
Drwg am ddrwg sydd anghristnogol,  
Drwg am dda sydd yn gythreulig,  
Da am ddrwg sy fendigedig.

## *Rhyddid a Hoen.*

CANU wnaf a bod yn llawen  
Fel y gog ar frig y gangen;  
A pheth bynnag ddaw i'm blino  
Canu wnaf a gadael iddo.

Gwyn eu byd yr adar gwylltion,  
Hwy gânt fynd i'r fan a fynnon',  
Weithiau i'r môr ac weithiau i'r mynydd,  
A dod adre yn ddigerydd.

Peth braf yw haf a hawddfyd,  
Peth braf yw ysgawn iechyd,  
Peth braf yw arian yn y pwrs,  
Peth braf yw cwrs yr ienctid.

Diofal yw'r aderyn,  
Ni hau, ni fed un gronyn,  
Heb ddim gofal yn y byd,  
Ond canu hyd y flwyddyn.

Fe fwyty 'i swper heno,  
Ni wŷr ym mhle mae'i ginio,  
Dyna'r modd y mae e'n byw,  
A gado i Dduw arlwyo.

Fe eistedd ar y gangen,  
Gan edrych ar ei aden,  
Heb un geiniog yn ei gôd,  
Yn llywio a bod yn llawen.

Da gan adar mân y coedydd,  
 Da gan ŵyn feillionog ddolydd,  
 Da gen i brydyddu'r hafddydd  
 Yn y llwyn a bod yn llonydd.

Gwyn fy myd pe medrwn hedeg  
 Bryn a phant a goriwaered,  
 Mynnwn wybod er eu gwaetha  
 Lle mae'r gog yn cysgu'r gaea'.

Yn y coed y mae hi'n cysgu,  
 Yn yr eithin mae hi'n nythu;  
 Yn y llwyn tan ddail y bedw,  
 Dyna'r fan y bydd hi farw.

Llawer gwaith bûm yn dyfalu  
 Lle mae'r adar bach yn cysgu,  
 Beth a gânt y nos i'w swper,  
 Pwy a'u dysgodd i ddweud eu pader.

Canmol deryn bach am ganu,  
 Canmol deryn bach am ddysgu,  
 Eto hyn sydd yn rhyfeddol—  
 Nid â deryn bach i'r ysgol.

Y sawl a dynno nyth y frân,  
 Fe gaiff fynd i uffern dân;  
 Y sawl a dynno nyth y dryw,  
 Ni chaiff weled wyneb Duw.

RHYDDID A HOEN

Mi fûm lawer bore difyr  
A dechreunos yn fwy sicir,  
Rhwng Penceint a Phlas Penmynydd  
Yn gwrando ar fwynion bynciau'r hedydd.

Llawer gwaith y bu'n fy mwriad  
Gael telynor imi'n gariad,  
Gan felysed sŵn y tanne'  
Gyda'r hwyr a chyda'r bore.

Rhaid i gybydd gadw'i gaban,  
Rhaid i ienctid dorri allan,  
Hyd fy medd mae'n rhaid i minnau  
Ganlyn mwynion dynion dannau.

Mwyn yw peraidd leisiau'r adar  
Ar y clyw ar fore claeur,  
Gwell gen i yw clywed englyn  
Mewn aceniad gyda'r delyn.

Hwyl i'r dwylo chware'r delyn,  
Hwyl i'r pennill, hwyl i'r englyn,  
Hwyl i yrru'r beirdd o'u hwyliâu,  
Hwyl i'w nôl hwy yn eu holau.

Da gan ddiogyn yn ei wely  
Glywed sŵn y droell yn nyddu,  
Gwell gen innau, dyn a'm helpo,  
Glywed sŵn y tannau'n tiwnio.

RHYDDID A HOEN

Dyn a garo grwth a thelyn,  
Sain cynghanedd, cân ac englyn,  
A gân y pethau mwyaf tirion  
Sy yn y nef ymhlith angylion.

Yr un ni charo dôn a chaniad  
Ni cheir ynddo naws o gariad;  
Fe welir hwn, tra byddo byw,  
Yn gas gan ddyn, yn gas gan Dduw.

Mae Ffair y Borth yn nesu,  
Caf deisen wedi ei chrasu,  
A chwrw poeth o flaen y tân,  
A geneth lân i'w charu.

## *Gogan.*

**B**RITH yw sêr ar noswaith olau,  
Brith yw meillion Mai a blodau,  
Brith yw dillad y merchedau,  
A brith gywir ydynt hwythau.

Mae gennyf gariad yn Llanuwchllyn  
A dwy siaced a dau syrcyn,  
A dwy het ar ei helw ei hun  
A dau wyneb dan bob un.

Mae fy nghariad wedi sorri,  
Ni wn yn wir pa beth ddaeth ati,  
Pan ddaw'r gwybed bach â chywion  
Gyrraf gyw i godi 'i chalon.

Mi ddarllenais ddod yn rhywfodd  
I'r byd hwn wyth ran ymadrodd;  
Ac i'r gwragedd (mawr lles iddynt),  
Fynd â saith o'r wyth-ran rhyngddynt.

Tebyg yw dy lais yn canu  
I gog mewn craig yn dechrau crygu,  
Dechrau cân heb ddiwedd arni,—  
Harddach fyddai iti dewi.

On'd ydyw yn rhyfeddod  
Fod dannedd merch yn darfod,  
Ond, tra bo yn ei genau chwyth,  
Na dderfydd byth mo'i thafod?

Peth ffein yw haul y bora',  
 Peth ffein yw blodau'r 'fala',  
 Peth ffein yw cariad fo gerllaw,  
 Dyn helpo'r sawl fo bella.

Dacw 'nghariad yn mynd heibio,  
 A cheffyl glas ei feistr tano,  
 A'i ddwy law ar ben ei glun  
 Fel pe bae'n farch iddo'i hun.

Ni buasai raid it, ferch fonheddig,  
 'Liwied imi 'ngheffyl benthyg;  
 Maen' hw'n dwedyd hyd y pentre  
 Y gallwn gael dy fenthyg dithe.

Rhodio'r coed erioed yr oeddwn,  
 A chael dewis pren a fynwn,  
 Fe ddewisais fonyn draenen  
 Yn lle llithrig lathraid onnen.

Pa waeth imi lodes wledig  
 Gyda'r nos na merch fonheddig?  
 Fe eill honno fod yn fwynach,  
 Ond bod crys y llall yn feinach.

Maen' hw'n dwedyd ac yn dwndwr  
 Mai yn y coed y bŷm i neithiwr,  
 Gwir y dwedant wrth ddweud felly—  
 Coed oedd deunydd pyst fy ngwely.



GOGAN

Gorau, gorau, gorau, gorau,  
Gael y wraig yn denau, denau,  
Ac yn ddrwg ei lliw a'i llun—  
Mi gaf honno i mi fy hun.

Tri pheth sy'n uchel ryfedd—  
Cader Idris draw'n y Gogledd,  
Pen Pumlumon, hynod fynydd,  
A merch â het o'r ffasiwn newydd.

Tri pheth sydd hawdd eu siglo—  
Llong ar fôr pan fo hi'n nofio,  
Llidiart newydd ar glawdd cerrig,  
A het ar gorun merch fonheddig.

Tri pheth a fedra' i orau—  
Canu telyn heb ddim tannau,  
Darllen papur gwyn yn groyw,  
A marchogaeth ceffyl marw.

Tri pheth sy gas wrth garu—  
Oeri traed a cholli cysgu,  
Tan y bargod yn dal defni,  
A'r ferch yn chwerthin yn y gwely.

Tri pheth sydd anodd nabod—  
Dyn, derwen a diwrnod,  
Mae'r dydd yn hir a'r pren yn gau,  
A'r dyn yn ddau wynebog.

GOGAN

Mi feddyliais, ond priodi,  
Na chawn ddim ond dawnsio a chanu;  
Ond beth a ges ar ôl priodi,  
Ond siglo'r crud a sïo'r babi.

Mi rois fy llaw mewn cwmwl dyrys,  
Deliais fodrwy rhwng fy neufys;  
Dywedais wers ar ôl y person,—  
Y mae'n edifar gan fy nghalon.

Mi rois goron am briodi:  
Ganwaith bu'n edifar genni;  
Mi rown lawer i ryw berson,  
Pe cawn i 'nhraed a'm dwylo'n rhyddion.

Gwyn fy myd pe lwfai'r gyfraith  
Imi briodi dau ar unwaith;  
'Rwyf yn caru dau 'r un enw,  
Siôn w'r ifanc, Siôn w'r gweddw.

Gwae fi na bawn yn gwybod  
Am ffordd, heb ddod yn briod,  
I gael y canpunt sydd yn stôr  
Gan ferch yn ochor Llwydcoed.

## *Hiraeth.*

**D**WEDWCH, fawrion o wybodaeth,  
O ba beth y gwnaethpwyd hiraeth,  
A pha ddeunydd a roed ynddo,  
Na ddarfyddai wrth ei wisgo?

Derfydd aur, a derfydd arian,  
Derfydd melfed, derfydd sidan,  
Derfydd pob dilledyn helaeth,  
Ond, er hyn, ni dderfydd hiraeth.

Hiraeth mawr a hiraeth creulon  
Sy bob dydd yn torri 'nghalon,  
Pan fwyf dryma'r nos yn cysgu  
Fe ddaw hiraeth, ac a'm deffry.

Hiraeth, hiraeth, cilia, cilia,  
Paid â phwyso mor drwm arna',  
Nesa dipyn at yr erchwyn,  
Gad i mi gael cysgu gronyn.

Ar lan y môr mae carreg wastad,  
Lle bûm yn siarad gair â'm cariad,  
O amgylch hon fe dŷf y lili,  
Ac ambell gangen o rosmari.

Yn y môr y byddo'r mynydd  
Sydd yn cuddio bro Meirionnydd,  
Na chawn unwaith olwg arni  
Cyn i'm calon dirion dorri.

## HIRAETH

Y mae hiraeth wedi 'nghael  
Rhwing fy nwyfron â'm dwy ael;  
Ar fy mron y mae yn pwysu  
Fel pe bawn yn famaeth iddo.

\* \* \*

Mi fûm yn gweini tymor  
Yn ymyl Ty'n y Coed,  
A dyna'r lle difyrfa'  
Y bûm i ynddo erioed:  
Yr adar bach yn tiwnio  
A'r coed yn suo 'nghyd,—  
Bu bron im dorri 'nghalon,  
Ar waetha'r rhain i gyd.

## *Gofid.*

**O** F'ANWYLYD, cyfod frwynen  
Ac ymafael yn ei deupen;  
Yn ei hanner tor hi'n union,  
Fel y torraist ti fy nghalon.

Maen' hw'n dwedyd y ffordd yma  
Nad oes dim mor oer â'r eira;  
Rhois ychydig yn fy mynwes,  
Clywn yr eira gwyn yn gynnes.

Dod dy law, on'd wyt yn coelio,  
Dan fy mron, a gwylia 'mrifo;  
Ti gei glywed, os gwrandewi,  
Sŵn y galon fach yn torri.

Llun y delyn, llun y tannau,  
Llun cyweirgorn aur yn droeau,  
Tan ei fysedd O na fuasai  
Llun fy nghalon union innau.

Gwynt ar fôr a haul ar fynydd,  
Cerrig llwydion yn lle coedydd,  
A gwyfanod yn lle dynion,  
Och, Dduw, sut na thorrai 'nghalon?

Ow, fy nghalon, tor os torri,  
Pam yr wyt yn dyfal boeni  
Ac yn darfod bob yn 'chydig  
Fel ia glas ar lechwedd llithrig?

GOFID

Dacw llwyn o fedw gleision,  
Dacw'r llwyn sy'n torri 'nghalon,—  
Nid am y llwyn yr wy'n ochneidio  
Ond am y ferch a welais ynddo.

Pe bai un o'r meini mwya  
Sy oddi yma i droed yr Wyddfa  
Yn fy mol lle bu fy nghalon,  
Fe'i gwnâi dristwch hwnnw'n sgyrion.

Mae fy nghalon i cyn drymed  
A'r maen mwya sy yn y pared,  
A chyn llawned o feddyliau  
Ag yw'r gogor mân o dyllau.

Fe gwn yr haul pan ddaw boreddydd,  
Fe gwn y tARTH oddi ar y dolydd,  
Fe gwn y gwLith oddi ar y meillion,  
Gwae fi, pa bryd y cwn fy nghalon?

Mi wrthodais, ffôl yr oeddwn,  
Ferch a garai'r tir a gerddwn,  
Ac a gerais, do, 'n garedig,  
Ferch a'm gwerthodd am ychydig.

Maent yn dwedyd am yr adar  
Nad oes un o'r rhain heb gymar—  
Gwelais dderyn brith y fuches  
Heb un gymar na chymhares.

GOFID

Mynd i'r ardd i dorri pwysi,  
Pasio'r lafant, pasio'r lili,  
Pasio bwms o rosys cochion—  
Torri bwms o ddanadl poethion.

Ni chân cog ddim amser gaea',  
Ni chân telyn heb ddim tanna',  
Ni chân calon, hawdd ich wybod,  
Pan fo galar ar ei gwaelod.

\* \* \*

Mae 'nghalon i cyn drymed  
Â'r march sy'n dringo'r rhiw  
Wrth geisio bod yn llawen—  
Nis medraf yn fy myw.  
Mae f'esgid fach yn gwasgu  
Mewn man nas gwyddoch chwi,  
A llawer gofid meddwl  
Sy'n torri 'nghalon i.

## Angau.


NID af ddim i'm gwely heno,  
Nid yw'r un 'rwy'n garu ynddo,  
Mi orweddaf ar y garreg,—  
Tor, os torri, 'nghalon fwyndeg.

Nid oes rhyngof ag ef heno  
Onid pridd ac arch ac amdo,  
Mi fûm lawer gwaith ymhellach,  
Ond nid erioed â chalon drymach.

Yr ochor hyn i'r clochdy  
Mae'r atgor gora yng Nghymru,  
A rhwng hynny â min y môr  
Mae calon oer yn llechu.

Cleddwch fi, pan fyddwyf farw,  
Yn y coed dan ddail y derw,  
Chwi gewch weled llanc penfelyn  
Ar fy medd yn canu'r delyn.

Rhodio'r oeddwn fynwent eglwys  
I 'mofyn am le teg i orffwys,  
Trawn fy nhroed wrth fedd oedd yno,  
Clywn fy nghalon drom yn neidio.

Gofyn wnes i'r gynulleidfa,  
“Pwy yw'r un a gladdwyd yma?”  
Ac atebai rhyw ddyn ynfyd,   
“Dyma'r fan lle mae d' anwylyd.”



ANGAU

Mae cyn amled yn y fa'chnad  
Groen yr oen â chroen y ddafad,  
A chyn amled yn y llan  
Gladdu'r ferch â chladdu'r fam.

Pan basio gŵr 'i ddeugain oed,  
Er bod fal coed yn deilio,  
Fe fydd sŵn 'goriadau'r bedd  
Yn peri i'w wedd newidio.

\* \* \*

Ar ryw noswaith yn fy ngwely,  
Ar hyd y nos yn ffael cysgu,  
Gan fod fy meddwl yn ddiama'  
Yn cydfeddwl am fy siwrna'.

Galw am gawg a dŵr i 'molchi,  
Gan ddisgwyl hynny i'm sirioli,  
Ond cyn rhoi deigr yn ar fy ngruddiau  
Ar fin y cawg mi welwn Angau.

Mynd i'r eglwys i weddio,  
Gan dybio'n siwr na ddeuai yno,  
Ond cyn im godi oddi ar fy ngliniau  
Ar ben y fainc mi welwn Angau.

Mynd i siambar glos i ymguddio,  
Gan dybio'n siwr na ddeuai yno,  
Ond er cyn glosied oedd y siambar  
Angau ddaeth o dan y ddaear.

ANGAU

Mynd i'r môr a dechrau rhwyfo,  
Gan dybio'n siwr na fedrai nofio,  
Ond cyn im fynd dros lyfnion donnau  
Angau oedd y capten llongau.

## DRAMÂU CYMRAEG.

**YR YMHONWYR.** Gan HENRICK IBSEN. Cymreigiwyd gan J. GLYN DAVIES a D. E. JENKINS. Rhagymadrodd gan T. E. ELLIS. *Pris, 2s. 6d.*

**GWEDI'R GWYLL.** Gan E. J. EVANS. Drama un act. *Pris 1s. 6d.*  
"Y mae'r dialog yn fywiog ac yn ddi-ddorol drwodd."

—YR ATHRO W. J. GRUFFYDD.

**DOCTOR ER EI WAETHAF.** Comedi gan MOLIERE, wedi ei chyfieithu gan SAUNDERS LEWIS. *Crown 8vo. Pris 2s.*

"An admirable version."—*Daily Courier.*

**YR HUPOPOTAMUS.** Drama Ddychan. Gan J. ELLIS WILLIAMS. Tair act. Naw o gymeriadau. *Pris 2s.*

**RHYS LEWIS, GWEN TOMOS, Y DREFLAN,** ac **ENOC HUWS.** Pedair drama hynod o boblogaidd, seiliedig ar nofelau DANIEL OWEN. *Crown 8vo. Pris 1s. 6d. yr un.*

**CYFOETH YNTE CYMERIAD.** Gan GRACE THOMAS. Drama pedair act. *Pris 1s. 6d.*

**Y CAM A'R CYMOD.** Drama Ddirwestol, tair act. Gan OLIVER DON. *Pris 1s. 6d.*

*I'w cael trwy'r Llyfrwerthwyr ym mhobman.*

HUGHES A'I FAB, WRECSAM.

# LLYFRAU'R FORD GRON

Trysorau'r iaith Gymraeg am Chwe Cheiniog.

- \*1. **PENILLION TELYN.** Curiadau calon y werin.
- \*2. **WILLIAMS PANTYCELYN.** Temtiad Theomemphus.
- \*3. **GORONWY OWEN.** Detholiad o'i Farddoniaeth.
4. **EMRYS AP IWAN.** Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys, I.
5. **EMRYS AP IWAN.** Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys, II.
6. **DAFYDD AP GWILYM.** Detholiad o'i Gywyddau.
7. **SAMUEL ROBERTS.** Rhyfel a Heddwch (ysgrifau).
8. **THOMAS EDWARDS** (Twm o'r Nant). Tri Chryfion Byd.
9. **Y FICER PRICHARD.** Cannwyll y Cymry.
10. **Y MABINOGION.** Stori Branwen ferch Llyr.
11. **MORGAN LLWYD.** Llythyr at y Cymry Cariadus, etc.
12. **IOLG GOCH, LEWIS GLYN COTHI, TUDUR ALED, SION CENT. DAFYDD NANMOR, a DAFYDD AB EDMWND.** Detholiad o'u Barddoniaeth.
13. **ELIS WYNNE.** Gweledigaeth Cwrs y Byd (Y Bardd Cwsg).
14. **EBEN FARDD.** Detholiad o'i Farddoniaeth.
15. **THEOPHILUS EVANS.** Drych y Prif Oesoedd (Detholiad).
16. **JOHN JONES, GLAN Y GORS.** Seren tan Gwmwl.
17. **SYR JOHN MORRIS-JONES.** Salm i Famon.
18. **GWILYM HIRAETHOG.** Troedigaeth Hen Deiliwr.
19. **SYR OWEN EDWARDS.** Ysgrifau.
20. **ISLWYN.** Detholiad o'i Farddoniaeth.

Y rhai a farciwyd â seren (\*) yn awr yn barod.  
**HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR, WRECSAM**